*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 18 MEDI 2023** am **09.30 o'r gloch** yn rhithiol **drwy Zoom**.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

**AGENDA**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiant**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2023**

**5. Materion yn Codi**

**6. Sesiwn hyfforddi – Cyflwyniad i Reoli Trysorlys**

**7. Cynllun Archwilio – Archwilio Cymru**

**8. Diweddariad Archwilio Mewnol**

**9. Adroddiad Diweddaru Rheoli Trysorlys**

**10. Diweddariad Caffael**

**11. Cynnig ar gyfer Gweithgor Craffu ar y Gyllideb**

**12. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**
Yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 o Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**13. Dim**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 12 Mehefin 2022 yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Nigel Smith (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Michelle Blakeley-Walker | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen | Cyngor Gwynedd (gadawodd am 09:45) |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd (gadawodd am 10:30) |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Sioned Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Anne-Marie Harrop | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| Charles Black | Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwy-ydd Gweithredol |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**ABSENNOL**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |

**2 DATGANIADAU BUDDIANT**

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD 20 MAWRTH 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**
**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5 MATERION YN CODI**

5.1 Nid oedd materion yn codi.

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2022/23**

6.1 Cyflwynodd Sioned Jones o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) ei hun i'r cyfarfod a chyflwynodd y papur ar Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2022/23, a oedd yn egluro, o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, Rhan 3 5. (2), ei bod yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) gynnal adolygiad o effeithiolrwydd ei system Rheolaeth Fewnol yn flynyddol. Mae Archwilio Mewnol yn rhan annatod o'r system honno, ac mae'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r gwaith o lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

6.2 Mae'r adroddiad yn dadansoddi gwaith y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 ac yn cynnwys y datganiad sicrwydd yn seiliedig ar waith Archwilio Mewnol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023.

6.3 Nodwyd mai barn y Pennaeth Archwilio, am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, yw bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli'r modd y mae'n cyflawni ei amcanion.

6.4 Manteisiodd y Cynghorydd Smith ar y cyfle i ddiolch i staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am eu gwaith caled a'u cefnogaeth dros y 12 mis diwethaf.

6.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

## 7. PENODI GWASANAETHAU ARCHWILIO MEWNOL NEWYDD

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Penodi Archwilwyr Mewnol Newydd, a oedd yn amlinellu i'r Aelodau sut roedd gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu darparu o 1 Ebrill 2023. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i benodi Asiantaeth Archwilio Mewnol Merswy (MIAA) fel archwilydd mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2026.

7.2 Eglurwyd bod MIAA yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) cefnogi argymhelliad y panel a chymeradwyo penodi Mersey Internal Audit Agency fel darparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2026.**

## 8 ADRODDIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

8.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, Adroddiad Rheoli'r Trysorlys a oedd yn anelu at hysbysu'r Aelodau o weithgarwch rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer yr Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Nodwyd bod y papur hwn yn un o ofynion y Cod Darbodus.

8.2 Cafodd PSTC MacArthur a Helen Howard, y Pennaeth Cyllid, eu diolch am eu gwaith caled yn y maes hwn.

8.3 Gofynnwyd pa effaith fyddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ei gael ar y gyllideb a chafwyd yr ateb na ddylai fod unrhyw effaith ychwanegol heblaw am yr hyn y cyfrifwyd amdano eisoes.

8.4 Holodd un Aelod a oedd Llywodraeth Cymru (LlC) yn cynnig unrhyw gymorth o ran cyllid, yn enwedig o gofio'r gofyniad i fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Cafwyd yr ymateb nad oedd cyllid cyfalaf yn dod gan Lywodraeth Cymru, ond bod ceisiadau am grantiau unigol yn cael eu gwneud lle bo hynny'n bosibl.

8.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi gweithgaredd rheoli'r trysorlys; a**

**ii) chymeradwyo'r dangosyddion darbodus terfynol ar gyfer 2022/23.**

## 9 ALLDRO AMCANOL 2022/23

9.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Alldro Dros Dro 2022/23 a oedd yn cyflwyno'r sefyllfa ddrafft o ran gwariant refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022/23 a chadarnhaodd yr amserlen ar gyfer cynhyrchu'r datganiad o gyfrifon blynyddol.

9.2 Cafodd y prif benawdau ar wariant a’r sefyllfaoedd alldro drafft ar ôl gwneud darpariaethau a symudiadau o gronfeydd wrth gefn eu nodi i'r Aelodau.

9.3 Gofynnodd PSTC MacArthur i'r Aelodau nodi bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i dynnu £300k ychwanegol i lawr o fewn y flwyddyn ariannol ddiwethaf o'r ardoll Prentisiaethau. Nid oedd yr ardoll hon wedi bod ar gael i'r Gwasanaeth o'r blaen, ac nid oedd yn rhywbeth y gellid dibynnu arno yn y blynyddoedd i ddod.

9.4 Gofynnwyd sut mae cronfeydd wrth gefn y Gwasanaeth wedi'u clustnodi o gymharu â Gwasanaethau eraill, ac a oedd y lefel bresennol yn rhywbeth y gellid ei gynnal yn y blynyddoedd i ddod. Ymatebodd PSTC MacArthur fod y swm a gedwir yn ein cronfeydd wrth gefn yn is na swm y GTA eraill yng Nghymru, ac y byddai'r lefel hon yn mynd yn anoddach i'w chynnal dros y blynyddoedd nesaf oherwydd pwysau yn sgil costau ychwanegol.

9.5 Rhoddwyd diolch i’r PSTC MacArthur a'i thîm am eu gwaith caled yn llunio'r Adroddiad Alldro Dros Dro drafft hwn.

9.5 **PENDERFYNWYD:**

**i) nodi’r sefyllfa alldro refeniw a chyfalaf ddrafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 fel y nodir yn yr adroddiad; a**

**(ii) nodi'r terfynau amser ar gyfer cynhyrchu'r datganiad blynyddol o gyfrifon ac archwiliad allanol ohono.**

**10 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd materion brys i’w trafod.

Ar y pwynt hwn, ymunodd Anne-Marie Harrop a Charles Black o MIAA â'r cyfarfod a chawsant eu cyflwyno. Croesawodd y Cynghorydd Smith MIAA fel Archwilwyr Mewnol newydd yr Awdurdod yn ogystal â’r Pwyllgor Archwilio.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:17.

*This document is also available in English.*

**Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Whiteley, Archwilio Cymru** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio 2023** |

**DIBEN YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau Cynllun Archwilio 2023 sy'n rhoi manylion y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Archwilio Cymru yw archwilydd statudol yr Awdurdod ac mae ei waith yn cwmpasu'r datganiadau ariannol, Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a'r egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n deillio o amcanion llesiant yr Awdurdod.

3 Mae'r cynllun archwilio ar gyfer 2023 wedi'i gynnwys yn atodiad 1 ac mae'n cadarnhau cyfrifoldebau'r archwilydd a'r dull gweithredu arfaethedig.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

i. Nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynllun archwilio yn ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wedi'i chynnwys yn amcanion llesiant yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae ystyriaeth i drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwerth am arian wedi'i chynnwys yn y cynllun archwilio. |
| Cyfreithiol | Mae archwiliad allanol o ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Ddim yn uniongyrchol berthnasol. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Bydd y gwaith archwilio perfformiad yn ystyried ystod o fesurau gan gynnwys cydymffurfio â dyletswyddau cydraddoldeb a'r Gymraeg lle bo hynny'n berthnasol. |
| Risgiau | Bydd gwaith Archwilio Cymru yn cael ei gynllunio o amgylch risgiau hysbys. |

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru – Cynllun Archwilio Manwl 2023

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3668A2023



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw’r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy’n endidau cyfreithiol ar wahân â’u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny’n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny’n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 8 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 10 |
| Datganiadau ariannol a’r amserlen archwilio | 13 |
| Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig | 14 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 15 |
| Ffi a’r tîm archwilio | 16 |
| Ansawdd archwilio | 18 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a’u heffaith | 19 |

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy ngwaith cynllunio i raddau helaeth.

Mae'r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae'n nodi'r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i'r afael â'r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

DRAFFT

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.
- o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n rhaid i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod yn debygol o fodloni'r gofynion hyn (neu wedi gwneud hynny).
- mae angen i'r Awdurdod gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y mae'n gwneud hyn.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am yr Awdurdod.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau am archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen).

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

DRAFT

# Gwaith archwilio perfformiad

Rwyf yn cynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad i gyflawni fy nyletswyddau[1] fel Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â gwerth am arian a datblygu cynaliadwy.

Bydd fy rhaglen archwilio perfformiad lleol yn parhau i gael ei darparu drwy gyfuniad o brosiectau lleol pwrpasol a phrosiectau thematig sy'n archwilio'r risgiau sy'n gyffredin i bob Awdurdod.

Cynhelir y rhan fwyaf o'm gwaith archwilio perfformiad gan ddefnyddio safonau archwilio Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI). Sefydliad ambarél byd-eang ar gyfer y gymuned archwilio perfformiad yw Sefydliad Rhyngwladol Sefydliadau Archwilio Goruchaf. Sefydliad anllywodraethol yw ef sydd â statws ymgynghorol arbennig gyda Chyngor Economaidd a Chymdeithasol y Cenhedloedd Unedig.

DRAFFT

[1] Pan fyddwn yn ymgymryd â gwaith archwilio o dan ein pwerau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y byddwn yn casglu gwybodaeth gan gyrff cyhoeddus sy'n cynnwys rhywfaint o ddata personol. Mae ein hysbysiad prosesu teg archwilio cyffredinol yn esbonio'r hyn a wnawn â data personol, a sut y gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data.

# Perthnasedd datganiadau ariannol

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

- Gwrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr
- Systemau ariannol perthnasol newydd

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt

- Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiwn
- Prisio tir ac adeiladau
- Pobl newydd yn paratoi'r datganiadau ariannol

**Bydd fy archwiliad o berfformiad yn cynnwys:**

- Adolygiad thematig – Targedu gwaith atal
- Mesur Llywodraeth Leol 2009 – archwiliad o'r cynllun gwella a'r adroddiad ar berfformiad

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £955,000 |
| Trothwy adrodd | £47,000 |
| Perthnasedd – Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | £222,000 |
| Trothwy adrodd – Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân | £11,000 |

## Perthnasedd – Prif ddatganiadau ariannol £955,000
## – Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân £222,000

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros drafft 2022-23 sef £47,770,000
- Gwariant gros drafft 2022-23 sef £11,107,000 (Cronfa Bensiwn Diffoddwyr Tân)
- Canran perthnasedd o 2%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau partïon cysylltiedig (unigolion) £10,000

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw i'r risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
| --- | --- |
| **Gwrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr**<br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• asesu dyluniad y rheolaethau ar gyfer prosesu cofnodion cyfnodolion a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith;<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn;<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |
| **Systemau ariannol perthnasol newydd**<br>Daeth y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu systemau ariannol rhwng yr Awdurdod a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ben ar 31 Mawrth 2022. O 1 Ebrill 2022, mae'r Awdurdod wedi gweithredu system ariannol newydd a fydd yn cael ei defnyddio ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23, gyda datganiadau ariannol 2022-23 yn cael eu cynhyrchu o ddata'r systemau ariannol newydd. | • Bydd ein tîm Archwilio TG yn cwblhau asesiad o reolaethau ar seilwaith a Rhwydwaith TG Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, yn ogystal ag adolygiad manwl o systemau ariannol Technology One.<br>• Bydd yr asesiad o reolaethau yn cynnwys adolygu cysoni rhwng balansau cau 2021-22 â balansau agoriadol 2022-23, i sicrhau cyflawnrwydd a chywirdeb data yn y system ariannol newydd. |

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio rhwymedigaeth net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) a rhwymedigaeth cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Diffoddwyr Tân (FFPS) fel y'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn ddarostyngedig i gryn dipyn o ansicrwydd gan ei fod yn sensitif i addasiadau bach yn y tybiaethau a ddefnyddir i'w gyfrifo. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan y rheolwyr i'w harbenigwr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnder y wybodaeth a roddwyd gan yr Awdurdod i'r actiwari i amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaeth net y gronfa bensiwn a datgeliadau yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari;<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r tybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy edrych ar adroddiad yr actiwari ymgynghorol (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen. |
| **Prisio tir ac adeiladau**<br>Mae gwerth tir ac adeiladau a adlewyrchir yn y fantolen a'r nodiadau i'r cyfrifon yn amcangyfrifon perthnasol.<br>Mae'n ofynnol i dir ac adeiladau gael eu dal ar sail brisio sy'n dibynnu ar natur yr asedau a'r defnydd a wneir ohonynt. Mae'r amcangyfrif hwn yn ddarostyngedig i gryn dipyn o oddrychedd yn dibynnu ar y tybiaethau arbenigol a rheoli a fabwysiedir a gall newidiadau i'r rhain arwain at newidiadau perthnasol i brisiadau. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• adolygu'r wybodaeth a roddwyd i'r prisiwr er mwyn asesu a yw'r wybodaeth honno'n gyflawn;<br>• gwerthuso cymhwystra, galluoedd a gwrthrychedd y prisiwr proffesiynol;<br>• profi sampl o asedau a ailbrisiwyd yn y flwyddyn er mwyn sicrhau bod y sail brisio, data allweddol a'r tybiaethau a ddefnyddiwyd yn y broses brisio yn rhesymol, a bod yr ailbrisiadau wedi cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y datganiadau ariannol; |

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

| | |
|---|---|
| Mae'n ofynnol i asedau gael eu hailbrisio bob pum mlynedd, ond gall gwerthoedd newid hefyd o flwyddyn i flwyddyn ac mae risg y gallai gwerth cario ymlaen asedau a adlewyrchir yn y cyfrifon fod yn wahanol iawn i werth cyfredol asedau ar 31 Mawrth 2023. | • gwerthuso'r tybiaethau a wnaed gan reolwyr o ran pam eu bod o'r farn nad yw tir ac adeiladau sydd heb eu hailbrisio yn 2022-23 wedi'u camddatgan yn berthnasol;<br>• profi'r cysoni rhwng y cyfriflyfr ariannol a'r gofrestr asedau. |
| **Pobl newydd yn paratoi'r cyfrifon**<br>Roedd y cytundeb lefel gwasanaeth rhwng yr Awdurdod a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn cynnwys paratoi'r datganiadau ariannol.<br>Mae hyn yn risg i'r Awdurdod wrth iddo ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau newydd a gafodd eu darparu o dan y cytundeb hwn yn flaenorol. | Bydd y tîm archwilio yn adolygu ac yn profi'r prosesau a'r rheolaethau sy'n gysylltiedig ag adrodd trafodion ar gyfer pob dosbarthiad perthnasol o drafodion, balansau cyfrifon a datgeliadau. |

DRAFT

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Mehefin – Gorffennaf 2023 | Awst 2023 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol:<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Gorffennaf - Hydref 2023 | Hydref 2023 |

# Gwaith archwilio perfformiad arfaethedig

Nodaf isod fanylion am fy ngwaith archwilio perfformiad a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 4: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| | | |
|---|---|---|
| **Adolygiad thematig – Targedu gwaith atal** | Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried a oes gan y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ddull gweithredu cynhwysfawr, cydweithredol a strategol o dargedu gwaith atal tân er mwyn mynd i'r afael â'r galw a osodir ar wasanaethau gan unigolion risg uchel. | Hydref 2023 – Gaeaf 2024 |
| **Mesur Llywodraeth Leol 2009** | Archwilio'r cynllun gwella a'r adroddiad ar berfformiad. | Cynllun Gwella – Mehefin 2023<br>Adroddiad ar Berfformiad – Tachwedd 2023 |

Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen archwilio perfformiad drwy ein diweddariadau rheolaidd i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

# Swyddogaethau archwilio statudol

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio’r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Arolygu dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a’r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y cynllun ffioedd ar gyfer blwyddyn 2023-24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd. Mae cynnydd o 4.8% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023-24, ar gyfer pwysau chwyddiant. Hefyd, mae cynnydd ychwanegol o 10.2% yn fy ffi archwilio ariannol ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol. Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a’r hyn y mae’n ei olygu i’r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £72,237.

**Arddangosyn 5: ffi archwilio**

Mae’r tabl hwn yn nodi’r ffi archwilio arfaethedig ar gyfer 2023, yn ôl maes o fewn gwaith archwilio, ochr yn ochr â’r ffi archwilio wirioneddol ar gyfer y llynedd.

| Maes archwilio | Ffi arfaethedig (£)[2] | Ffi wirioneddol y llynedd (£) |
|---|---:|---:|
| Archwilio cyfrifon[3] | 55,857 | 53,628 |
| Gwaith archwilio perfformiad[4] | 16,380 | 16,051 |
| Cyfanswm y ffi | **72,237** | **69,721** |

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i’r amlwg. Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â’r Awdurdod yn gyntaf.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- mae’r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi’r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi’r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau;
- ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â’u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 6**.

[2] Nodiadau: Nid yw’r ffioedd a ddangosir yn y ddogfen hon yn cynnwys TAW, nad yw’n cael ei chodi arnoch.

[3] Yn daladwy o fis Tachwedd 2022 hyd fis Hydref 2023.

[4] Yn daladwy o fis Ebrill 2023 hyd fis Mawrth 2024.

**Arddangosyn 6: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
| --- | --- | --- | --- |
| Derwyn Owen | Cyfarwyddwr Ymgysylltu | 02920 320651 | derwyn.owen@audit.wales |
| Mike Whiteley | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829389 | mike.whiteley@audit.wales |
| Carwyn Rees | Rheolwr Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 829375 | carwyn.rees@audit.wales |
| David Tomalin | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 02920 829386 | david.tomalin@audit.wales |
| Nigel Griffiths | Arweinydd Archwilio (Archwilio Perfformiad) | 02920 320655 | nigel.girffiths@audit.wales |

Gallaf gadarnhau bod pob aelod o'm tîm yn annibynnol ar yr Awdurdod a'ch swyddogion.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd. Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022.



### Our People

The first line of assurance is formed by our staff and management who are individually and collectively responsible for achieving the standards of audit quality to which we aspire.

- Selection of right team
- Use of specialists
- Supervisions and review



### Arrangements for achieving audit quality

The second line of assurance is formed by the policies, tools, learning & development, guidance, and leadership we provide to our staff to support them in achieving those standards of audit quality.

- Audit platform
- Ethics
- Guidance
- Culture
- Learning and development
- Leadership
- Technical support



### Independent assurance

The third line of assurance is formed by those activities that provide independent assurance over the effectiveness of the first two lines of assurance.

- EQCRs
- Themed reviews
- Cold reviews
- Root cause analysis
- Peer review
- Audit Quality Committee
- External monitoring

* QAD is the quality monitoring arm of ICAEW.

# Atodiad 1

## Y newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
| --- | --- |
| **Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth** | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| **Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG** | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• cymwysiadau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.<br>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen. |

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys ei bod yn gwrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad. |
| **Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad. |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |

Drwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau, y gellir eu haddasu i'ch dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith Arfer Da cliciwch yma.

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr yma.

Archwilio Cymru
Audit Wales


Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru


Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wneir gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol ar gyfer yr Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith sydd ar y gweill ers eu penodi. Mae'r Siarter Archwilio Mewnol hefyd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

**ARGYMHELLION**

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA hyd yma ac adolygiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol; a
ii. Nodi cynnwys y siarter archwilio mewnol.

**CEFNDIR**

5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

6 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

7 Bydd y penodiad yn cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Mehefin 2023.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o gynnydd y gwaith ers eu penodi ym mis Mehefin 2023. Mae hyn yn cadarnhau bod yr adolygiad o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli cyflogres ac absenoldeb wedi cychwyn. Mae'r system gyflogres yn system ariannol graidd ac mae trafodion yn cyfrif am dros 70% o'r gwariant.

9 Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu bod gwaith wedi dechrau mewn perthynas â'r Fenter Twyll Genedlaethol (NFI). Bydd MIAA yn darparu cymorth i adolygu cydweddu data posibl er mwyn rhoi sicrwydd o ran trefniadau sylfaenol yr Awdurdod.

10 Bydd gwaith MIAA hefyd yn canolbwyntio ar feysydd risg eraill gan gynnwys trefniadau'r Awdurdod ar gyfer rheoli seiberddiogelwch. Mae'r gwaith hwn ar hyn o bryd yn y cam cynllunio a bydd yn symud ymlaen yn ystod yr wythnosau nesaf.

11 Mae'r gwaith a wneir gan MIAA yn cael ei lywodraethu gan y Siarter Archwilio Mewnol sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 er gwybodaeth. Mae hyn yn un o ofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017).

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae cael sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses o bennu cyllidebau'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae adolygu systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Awst 2023)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent ar gael i Aelodau'r Pwyllgor ar gais. Yn ogystal, adroddir safbwynt dilynol cyfunol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

**Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod 20 Mehefin 2023 i 18 Awst 2023**

# 3 Crynodeb Gweithredol

| **Adolygiadau Archwilio 2023/24** |
|---|
| Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:<br>• Cyflogres a Rheoli Absenoldeb (gwaith maes)<br>• Menter Twyll Genedlaethol (cyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal, paru wedi digwydd a'r dull wedi'i gytuno)<br>Rydym hefyd wedi cytuno i adolygu sawl polisi a gweithdrefn o safbwynt Gwrth-Dwyll sef - Polisi chwythu'r chwiban, Gwrth-dwyll & Llygredd ac Anrhegion & Lletygarwch. |

| **Dilyniant** |
|---|
| Nid oes gwaith dilynol i'w adrodd ar hyn o bryd, ond rydym wedi cwblhau'r trosglwyddiad gyda Chyngor Conwy. |

## Newidiadau i’r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gwreiddiol ac fe’u hamlygir ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i ddiwygio'r cynllun archwilio cymeradwy.

## Gwerth Ychwanegol

### Digwyddiadau

- Strengthening our sector – How we can harness our community assets through effective community leadership (15th September 2023)
- Governance and Risk network GARNet (20th September 2023)
- Understanding Anxiety in the workplace (18th October 2023)

Mae digwyddiadau yn rhad ac am ddim i bob cleient a gellir archebu lle drwy glicio ar y ddolen uchod neu drwy ein gwefan. www.miaa.nhs.uk a chlicio ar Events.

## Atodiad A: Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan 'Rhaid i'r prif swyddog gweithredol archwilio ddarparu barn archwilio mewnol ac adroddiad blynyddol y gall y sefydliad eu ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.'

Isod ceir trosolwg ar gyfer Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 23/24:

| Maes Barn HOIA | TOR yn Cytuno | Statws | Lefel Sicrwydd | Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risgiau Rheolaethau Craidd: | | Darparu Ch 4 | | I'w gadarnhau |
| Systemau Ariannol Allweddol | | Darparu Ch 3 | | I'w gadarnhau |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Amh. | Cynllunio a chyfarfod cychwynnol wedi'i gynnal i ystyried paru a dull gweithredu | | Rhagfyr 2023 |
| Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | ✓ | Ar y gweill | | Rhagfyr 2023 |
| TG – Rheolaethau Sefydliadol Seiber | | Cynllunio | | Rhagfyr 2023 |
| Dilyniant | | | | |
| Ch.1 | Amh. | Cwblhawyd gan Archwilwyr Cyngor Conwy | Amh. | Mehefin 2023 |
| Ch.4 | Amh. | Darparu Ch 4 | | |

| Maes Barn HOIA | TOR yn Cytuno | Statws | Lefel Sicrwydd | Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Wrth gefn – Cymorth ac Arweiniad Gwerth Ychwanegol | | | | |
| Adolygiad Polisi a Gweithdrefn<br>Polisi chwythu'r chwiban, Gwrth-dwyll & Llygredd ac Anrhegion & Lletygarwch | Amh. | Ar y gweill | Amh. | Amh. |

Os na allwn sicrhau digon o ddyfnder neu sylw oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi barn gyda chafeat ac egluro effaith hyn a beth fydd yn digwydd i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.



miaa

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Prif fesur perfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor i asesu perfformiad Archwilio Mewnol.

| Elfen | Amlder Adrodd | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyflwyno Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur ar gyfer adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godir y cytunwyd arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Bydd dilyniant yn cael ei adrodd ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwys | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys ac amrywiol iawn sy'n cynnwys 75% o staff cymwys. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiad MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

# Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
| --- | --- |
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygir. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyffredinol. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol, fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae system gyfaddawdedig o reolaeth fewnol gan fod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai/mae gwendidau mewn rheolaeth, a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau wedi arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
| --- | --- |
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol ar, nid yn unig amcanion y system, swyddogaeth neu broses, ond hefyd cyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er iddo gael effaith uchel ar y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendidau rheoli:<br>• sy'n cael effaith isel ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sy'n golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod y wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi sicrwydd llwyr o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn dibynnu ar reolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, nac i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall a pherson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol ac na fydd ganddo unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

# Siarter Archwilio Mewnol (Awst 2023)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad a Chefndir

2 Safon 1000 – Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb

3 Safon 1100 – Annibyniaeth a Gwrthrychedd

4 Safon 1200 – Medrusrwydd a Gofal Proffesiynol Dyladwy

5 Safon 1300 – Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

6 Safon 2000 – Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol

7 Safon 2100 – Natur y Gwaith

8 Safon 2200 – Cynllunio Ymgysylltiad

9 Safon 2300 – Cyflawni’r Ymgysylltiad

10 Safon 2400 – Cyfathrebu Canlyniadau

11 Safon 2500 – Monitro Cynnydd

12 Safon 2600 – Cyfathrebu bod Risgiau’n cael eu Derbyn

# 13 Diffiniadau

# 1 Cyflwyniad

Mae'r Siarter Archwilio Mewnol yn orfodol trwy Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017) ac mae'n ddogfen ffurfiol sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgaredd archwilio mewnol. Mae'r siarter archwilio mewnol yn sefydlu safle'r gweithgaredd archwilio mewnol o fewn y sefydliad; yn awdurdodi mynediad at gofnodion, personél ac eiddo ffisegol sy'n berthnasol i gyflawni ymrwymiadau; ac yn diffinio cwmpas gweithgareddau archwilio mewnol.

Mae'r Siarter hon wedi'i strwythuro o amgylch Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (2017), Nodyn Cais Llywodraeth Leol CIPFA (LGAN) ac mae'n cyd-fynd â'r Egwyddorion Craidd ar gyfer yr Arfer Broffesiynol o Archwilio Mewnol.




Mae MIAA yn cadarnhau cydymffurfiaeth barhaus â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

# 2 Safon 1000 – Pwrpas, Awdurdod a Chyfrifoldeb

Mae archwilio mewnol yn "weithgaredd sicrhau ac ymgynghori annibynnol, gwrthrychol sydd wedi'i gynllunio i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau sefydliad. Mae'n helpu sefydliad i gyflawni ei amcanion drwy gyflwyno dull systematig, disgybledig i werthuso a gwella effeithiolrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu[1]".

Darparu gwasanaethau sicrwydd yw'r brif rôl ar gyfer archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus. Mae'r rôl hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r archwilydd mewnol ddarparu barn annibynnol yn seiliedig ar asesiad gwrthrychol o'r fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth. Prif bwrpas gweithgarwch archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus felly yw rhoi barn, a gwerthusiad gwrthrychol i'r Swyddog Atebol neu Gyfrifyddu o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad. Mae barn y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn elfen allweddol o'r fframwaith sicrwydd y mae ei angen ar y Swyddog Atebol neu Gyfrifyddu i lywio'r gwaith o gwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLIB).

Mae archwilio mewnol hefyd yn darparu gwasanaeth ymgynghori annibynnol a gwrthrychol sy'n gynghorol ei natur, ac a gyflawnir yn gyffredinol ar gais penodol y sefydliad. Mae gwaith ymgynghori o'r fath ar wahân, ond mae'n cyfrannu at y farn y mae archwilio mewnol yn ei darparu ar reoli risg, rheolaeth a llywodraethu.  Wrth berfformio gwasanaethau ymgynghori, bydd yr archwilydd mewnol yn cynnal gwrthrychedd ac ni fydd yn ysgwyddo cyfrifoldeb rheoli.

[1] The Definition of Internal Auditing Copyright © 2009 gan The Institute of Internal Auditors, Inc., 247 Maitland Avenue, Altamonte Springs, Florida 32710-4201 U.S.A. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd.

Mae'r swyddogaethau uchod yn gyrru Cenhadaeth MIAA i gefnogi 'trawsnewidad a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn effeithiol trwy fod yn bartner dibynadwy wrth ddarparu gwasanaethau sicrwydd ac ateb sy'n gwella canlyniadau ac sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn'.

Bydd Adolygiadau Sicrwydd yn darparu barn archwilio unigol i gefnogi Barn flynyddol y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol. Gofynnir am gytundeb ffurfiol ar gyfer darparu sicrwydd trydydd parti i gyrff eraill mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan y sefydliad.

Yn unol â Rheoliadau Ariannol y sefydliad, bydd Archwilwyr Mewnol (heb roi rhybudd ymlaen llaw o reidrwydd) yn cael mynediad at holl gofnodion (gan gynnwys rhai o natur gyfrinachol) a gweithwyr y sefydliad.

## 3 Safon 1100 – Annibyniaeth a Gwrthrychedd

Rhaid i'r gweithgarwch archwilio mewnol fod yn annibynnol, a rhaid i'r archwilwyr mewnol fod yn wrthrychol wrth gyflawni eu gwaith. Er mwyn cyflawni'r lefel o annibyniaeth sy'n angenrheidiol i gyflawni cyfrifoldebau'r gweithgarwch archwilio mewnol yn effeithiol, bydd gan y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol fynediad uniongyrchol a digyfyngiad at uwch reolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn cadarnhau i'r Pwyllgor Archwilio, o leiaf bob blwyddyn, annibyniaeth sefydliadol y gweithgarwch archwilio mewnol.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn adrodd yn weithredol i'r Pwyllgor Archwilio ac yn sefydlu cyfathrebu effeithiol gyda'r canlynol er mwyn cael mynediad rhydd a dilyffethair atynt – y Swyddog Atebol, y Trysorydd, y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Bydd hyn yn cynnwys cyfathrebu a rhyngweithio'n uniongyrchol â'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd gweithgarwch archwilio mewnol yn rhydd o ymyrraeth wrth bennu cwmpas archwilio mewnol, perfformio gwaith a chyfleu canlyniadau. Bydd gan archwilwyr mewnol agwedd ddiduedd, amhleidiol a byddant yn osgoi unrhyw wrthdaro buddiannau. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan fydd archwilydd yn darparu gwasanaethau heblaw archwiliad mewnol i'r sefydliad. Bydd camau'n cael eu cymryd i osgoi neu reoli gwrthdaro buddiannau o'r fath yn dryloyw ac yn agored, fel nad oes bygythiad neu amhariad gwirioneddol neu ganfyddedig i annibyniaeth wrth gyflawni'r rôl archwilio.

Bydd pob archwilydd mewnol yn cwblhau datganiad buddiant blynyddol sy'n nodi gwrthdaro buddiannau posibl a'r camau a gymerwyd i'w lliniaru. Bydd y broses hon, a'i chanlyniadau, yn cael eu cyfleu i'r Pwyllgor Archwilio yn flynyddol trwy Farn ac Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol.

Bydd MIAA hefyd yn adolygu'r rheolwr archwilio penodol a neilltuwyd i'r sefydliad o bryd i'w gilydd i sicrhau bod y ddau barti yn fodlon bod perthnasoedd yn dal i fod yn annibynnol ac yn wrthrychol.

Os amharir ar annibyniaeth neu wrthrychedd mewn gwirionedd neu o ran canfyddiad, bydd manylion yr amhariad yn cael eu datgelu i bartïon priodol. Bydd natur y datgeliad yn dibynnu ar yr amhariad.

## 4 Safon 1200 – Medrusrwydd a Gofal Proffesiynol Dyladwy

Bydd ymrwymiadau'n cael eu perfformio gyda medrusrwydd a gofal proffesiynol dyladwy. Bydd archwilwyr mewnol yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau eraill sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau unigol. Bydd y sawl sy’n ymwneud ag archwilio mewnol yn meddu neu’n caffael y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau eraill sydd eu hangen i gyflawni eu cyfrifoldebau. Mae gan y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol gymwysterau proffesiynol ac mae'n gyfrifol am sicrhau

mynediad i'r ystod lawn o wybodaeth, sgiliau, cymwysterau a phrofiad i fodloni gofynion y Safonau Archwilio Mewnol. Bydd archwilwyr mewnol MIAA yn sicrhau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a chdymffurfiaeth â safonau proffesiynol.

Bydd archwilwyr mewnol yn defnyddio’r gofal a'r sgilau a ddisgwylir gan archwilydd mewnol rhesymol doeth a chymwys. Nid yw gofal proffesiynol dyladwy yn awgrymu anffaeledigrwydd.

## 5 Safon 1300 – Rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwella

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio yn datblygu ac yn cynnal rhaglen sicrhau ansawdd a gwella sy'n ymdrin â phob agwedd ar weithgarwch archwilio mewnol. Bydd y rhaglen sicrhau ansawdd a gwella yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol.

- Bydd asesiad mewnol yn cynnwys:
- Monitro perfformiad y gweithgarwch archwilio mewnol yn barhaus; a
- Hunanasesiadau neu asesiad cyfnodol gan bersonau eraill o fewn y sefydliad sydd â digon o wybodaeth am arferion archwilio mewnol.

Bydd asesiadau allanol hefyd yn cael eu cynnal o leiaf unwaith bob pum mlynedd gan adolygydd neu dîm adolygu annibynnol cymwys o'r tu allan i'r sefydliad. Bydd canlyniadau adolygiadau ansawdd allanol ac unrhyw gynlluniau gwella dilynol yn cael eu hadrodd i'r Swyddog Cyfrifol/Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio.

## 6 Safon 2000 – Rheoli'r Gweithgaredd Archwilio Mewnol

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn datblygu ac yn cynnal strategaeth Archwilio Mewnol a gynlluniwyd i fodloni prif bwrpas y gweithgarwch archwilio mewnol a'i anghenion darpariaeth gwasanaeth. Bydd y strategaeth hon yn hyrwyddo adolygiad systematig a blaenoriaethol, gan amlinellu'r adnoddau a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sicrwydd y Swyddog Atebol/Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio. Bydd y strategaeth yn ystyried aeddfedrwydd risg cymharol y sefydliad, gan roi ystyriaeth briodol i’r Fframwaith Sicrwydd.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn sefydlu cynlluniau sy'n seiliedig ar risg i bennu blaenoriaethau'r gweithgarwch archwilio mewnol yn gyson â nodau'r sefydliad.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn cynnwys yn y strategaeth archwilio mewnol y dull o ddefnyddio ffynonellau eraill o sicrwydd mewnol ac allanol. Bydd cynlluniau cyfnodol yn cynnwys unrhyw waith sy'n gysylltiedig â rhoi dibyniaeth ar waith o'r fath.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn cytuno ar y strategaeth a'r cynlluniau cyfnodol gyda'r Swyddog Atebol/Cyfrifyddu a'r Pwyllgor Archwilio.

Pan fo'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn credu y bydd lefel yr adnoddau y cytunwyd arnynt yn atal y Swyddog Atebol/Cyfrifyddu rhag cael barn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad, bydd y canlyniadau'n cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Archwilio.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn cytuno ar drefniadau ar gyfer adrodd dros dro i'r Swyddog Atebol/Cyfrifyddu a’r Pwyllgor Archwilio yn ystod y flwyddyn ac yn llunio adroddiad blynyddol sy'n ymgorffori ei farn.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn rhoi barn i'r Swyddog Atebol/Cyfrifyddu ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliad, a gaiff ei amseru i gefnogi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

## 7 Safon 2100 – Natur y Gwaith

Bydd y gweithgaredd archwilio mewnol yn gwerthuso ac yn cyfrannu at wella prosesau llywodraethu, rheoli risg a rheoli, gan ddefnyddio dull systematig a disgybledig.

Bydd y gweithgaredd archwilio mewnol hefyd yn gwerthuso'r potensial ar gyfer achosion o dwyll ac yn ystyried sut mae'r sefydliad yn rheoli risg o dwyll. Mae CIPFA wedi cyhoeddi *Cod Ymarfer ar Reoli'r Risg o Dwyll a Llygredd*. Er bod cydymffurfio â'r cod yn wirfoddol, mae CIPFA yn argymell yn gryf ei fod yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer asesu sut mae sefydliad yn rheoli ei risg o dwyll. Dylid hysbysu'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol o'r holl dwyll, llygredd neu amhriodoldeb a amheuir neu a ganfyddir er mwyn llywio'r farn flynyddol a'r cynlluniau sy'n seiliedig ar risg.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol hefyd yn cysylltu ag archwilwyr allanol y sefydliad a chyrff adolygu eraill i hwyluso cydlynu adnoddau a sicrwydd archwilio yn effeithiol.

## 8 Safon 2200 – Cynllunio Ymgysylltiad

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn sefydlu Cynllun Archwilio Mewnol sy'n seiliedig ar risg ar y cyd â'r cleient a chyda chytundeb y Pwyllgor Archwilio. Bydd y cynllun yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithgarwch Archwilio Mewnol, yn gyson â nodau ac amcanion y sefydliad.

Bydd archwilwyr mewnol yn datblygu ac yn dogfennu cylch gorchwyl ar gyfer pob ymgysylltiad, gan gynnwys amcanion, cwmpas, amseru a dyraniadau adnoddau'r ymgysylltiad, yn seiliedig ar werthusiad o natur a chymhlethdod pob ymgysylltiad, cyfyngiadau amser a'r adnoddau sydd ar gael. Bydd cynllun gwaith yn cael ei ddatblygu a'i ddogfennu sy'n cyflawni amcanion yr ymgysylltiad.

Bydd archwiliad mewnol yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r archwilydd allanol i ymgynghori ar gynlluniau archwilio a thrafod materion o ddiddordeb i'r ddwy ochr.

## 9 Safon 2300 – Cyflawni'r Ymgysylltiad

Bydd archwiliad mewnol yn nodi, dadansoddi, gwerthuso a dogfennu digon o wybodaeth i gyflawni amcanion yr ymgysylltiad. Bydd archwilwyr mewnol yn seilio casgliadau a chanlyniadau'r ymgysylltiad ar ddadansoddiadau a gwerthusiadau priodol. Bydd archwilwyr mewnol yn cofnodi gwybodaeth berthnasol i gefnogi'r casgliadau a chanlyniadau'r ymgysylltiad.

Bydd pob ymgysylltiad yn cael eu goruchwylio'n briodol i sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, sicrhau ansawdd a sicrhau bod staff yn cael eu datblygu.

## 10 Safon 2400 – Cyfathrebu Canlyniadau

Bydd archwilwyr mewnol yn cyfleu'r canlyniadau ymgysylltiad â phartïon priodol, gan gynnwys amcanion a chwmpas yr ymgysylltiad, yn ogystal â chasgliadau, argymhellion a chynlluniau gweithredu cymwys.

Gan weithio gyda'r sefydliad, bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn sicrhau bod cyfathrebu'n gywir, yn wrthrychol, yn glir, yn gryno, yn adeiladol, yn gyflawn ac yn amserol.

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio mewnol yn cyflwyno barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol.

Bydd barn yr archwiliad mewnol blynyddol yn nodi digonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheoli y sefydliad.

Bydd yr adroddiad blynyddol yn ymgorffori;

- Y farn;
- Crynodeb o'r gwaith sy'n cefnogi'r farn; a
- Datganiad ar gydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a chanlyniadau'r rhaglen sicrhau ansawdd a gwella.

## 11 Safon 2500 – Monitro Cynnydd

Bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn sefydlu ac yn cynnal proses ddilynol i fonitro bod camau rheoli wedi'u gweithredu'n effeithiol neu fod uwch reolwyr wedi derbyn y risg o beidio â gweithredu. Bydd hyn yn cael ei weithredu i gefnogi'r sefydliad i sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith, ac adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor Archwilio.

## 12 Safon 2600 – Cyfathrebu bod Risgiau'n cael eu Derbyn

Pan fo'r Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn credu bod uwch reolwyr wedi derbyn lefel o risg gweddilliol a allai fod yn annerbyniol i'r sefydliad, bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn trafod y mater gydag uwch reolwyr. Os na fydd y penderfyniad ynghylch risg gweddilliol yn cael ei ddatrys, bydd y Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol yn adrodd y mater i'r Pwyllgor Archwilio i'w ddatrys.

**Cod Moeseg**

Bydd MIAA yn gweithredu o fewn y diffiniad o Archwilio Mewnol ac yn sicrhau bod y Cod Moeseg (Sefydliad Archwilwyr Mewnol, 2017) yn sail i'r gwasanaethau archwilio mewnol a ddarperir i'r sefydliad.

**UNIONDEB**

- Gonestrwydd, diwydrwydd a chyfrifoldeb
- Datgeliad cyfreithiol a phroffesiynol
- Cyfraniad at amcanion cyfreithlon a moesegol

**GWRTHRYCHEDD**

- Asesiad diduedd
- Perthnasoedd
- Heb fod yn destun dylanwad gormodol
- Datgelu gwrthdaro buddiannau

**CYFRINACHEDD**

- Doethineb wrth ddefnyddio a diogelu gwybodaeth
- Peidio â defnyddio gwybodaeth er budd personol neu'n groes i ofynion cyfreithiol

**CYMHWYSEDD**

- Gwybodaeth, sgiliau a phrofiad
- Cydymffurfio â safonau ac arfer proffesiynol
- Gwelliant parhaus

## 13 Diffiniadau

| | |
|---|---|
| Bwrdd | Awdurdod Tân y sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros lywodraethu. |
| Swyddog Atebol | Swyddog sy'n gyfrifol ac yn atebol am arian a ymddiriedir i'r sefydliad. |
| Y Pwyllgor Archwilio | Is-bwyllgor o'r Awdurdod Tân sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros oruchwylio sefydlu system effeithiol o lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth integredig ar draws gweithgareddau'r sefydliad. |

| | |
|---|---|
| Cyfarwyddwr Archwilio Mewnol | Yn gweithredu fel y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio fel y swyddog gweithredol corfforaethol annibynnol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am archwilio mewnol. |
| Uwch Reolwyr | Y Swyddog Arweiniol cyffredinol y cytunwyd arno gan y sefydliad ar gyfer pob ymgysylltiad archwilio. |

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

miaa

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ebrill – Mehefin 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar weithgarwch rheoli trysorlys, a chydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Mehefin 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) *Rheolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (2021)* (Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo, o leiaf, adroddiadau alldro blynyddol a lled-flynyddol ar reoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i adrodd yn chwarterol ar ddangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u hymgorffori yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca a buddsoddi symiau sylweddol o arian, mae risgiau ariannol y mae angen eu hystyried gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw ar newidiadau cyfraddau llog. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) nodi'r gweithgareddau rheolaeth trysorlys a'r dangosyddion darbodus am y cyfnod 1 Ebrill – 30 Mehefin 2023.

**CYD-DESTUN ALLANOL**

6 Gostyngodd chwyddiant o'i uchafbwynt o 11.1% a gyrhaeddwyd ym mis Hydref 2022, ond roedd y prif CPI blynyddol ym mis Mai 2023 yn uwch na'r rhagolwg consensws ar 8.7% (disgwyliwyd 8.4%). Roedd hyn yn bennaf oherwydd chwyddiant gwasanaethau, tra bod y mesur blynyddol o chwyddiant craidd sylfaenol wedi codi i 7.1% o 6.8%.

7 Ail-gyflymodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr dynhau polisi ariannol dros y cyfnod gyda chynnydd o 0.25% ym mis Mai i gynnydd o 0.5% ym mis Mehefin, gan fynd â'r Gyfradd Banc i 5.0%.

8 Fe wnaeth y disgwyliadau o ran cyfraddau llog ddwyn i ystyriaeth godiadau pellach mewn cyfraddau polisi. Diwygiodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr awdurdod, ei ragolwg i ragweld tynhau ariannol pellach o 0.5% i fynd â'r Gyfradd Banc i 5.5%. Y risgiau, fodd bynnag, yw y gallai cyfraddau fod yn uwch; mae marchnadoedd ariannol yn rhagweld cyfraddau llog polisi yn uwch na 6%.

**CYD-DESTUN LLEOL**

9 Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod fenthyciadau net o £22.48 miliwn yn deillio o wariant cyfalaf. Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), tra mai adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Crynhoir y ffactorau hyn yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.23 Gwirioneddol £m** |
|---|---:|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 28.88 |
| Benthyca allanol | -26.65 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 4.17 |
| **31 Mawrth 2023** | **0.00** |

**10** Dangosir y sefyllfa rheolaeth trysorlys ar 30 Mehefin a'r newid dros y chwarter yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheolaeth Trysorlys**

| | **31.3.23 Balans £m** | **Symudiadau £m** | **30.6.23 Balans £m** | **30.6.23 Cyfradd %** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Benthyca tymor hir | 17.79 | 0 | 17.79 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca tymor byr | 8.86 | -3.42 | 5.44 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-3.42** | **23.23** | |
| Buddsoddiadau tymor byr | 0.00 | 0.00 | 0.00 | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -4.17 | -6.01 | -10.18 | 4.16 - 4.90 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-4.17** | **-6.01** | **-10.18** | |
| **Benthyca net** | **22.48** | **-9.43** | **13.05** | |

## BENTHYCA

11 Mae Cod Darbodus 2021 CIPFA yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca i fuddsoddi â'r prif amcan o fod yn elw ariannol. Nid yw'n ddoeth i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf sy'n gofyn am fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn bennaf â swyddogaethau'r Awdurdod.

12 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn ymwneud â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGAREDD FENTHYCA

13 Fel yr amlinellwyd yn strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca fu mabwysiadu strategaeth risg isel gan gydbwyso costau llog isel a chyflawni sicrwydd cost dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ail-negodi benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid yn amcan eilaidd. Mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion.

14 Bu cynnydd sylweddol yng nghostau'r benthyciadau tymor byr a thymor hir dros y 18 mis diwethaf. Yn y chwarter hwn, cododd y Gyfradd Banc o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.0% ar ddiwedd y chwarter ac roedd hefyd yn sylweddol uwch na'i lefel o 1.25% ar ddiwedd mis Mehefin 2022.

15 Parhaodd cyfraddau benthyca PWLB i godi dros y chwarter. Ar 30 Mehefin, roedd cyfraddau sicrwydd y PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd yn 5.25% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 5.36% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd ac yn 4.95% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Eu cyfwerth ar 31 Mawrth 2023 oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

16 Ar 30 Mehefin roedd gan yr Awdurdod £23.23 miliwn mewn benthyciadau, gostyngiad o £3.42 miliwn ar 31 Mawrth 2023, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y flwyddyn flaenorol a'r flwyddyn gyfredol. Crynhoir y benthyciadau oedd yn weddill ar 30 Mehefin yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.6.23 Balans £m | 30.6.23 Cyfradd Cyfartalog Pwysoledig % | 30.6.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysoledig (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 20.65 | -0.42 | 20.23 | 2.46 | 4.74 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 6.00 | -3.00 | 3.00 | 4.35 | 1.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-3.42** | **23.23** | | |

17 Mae cost benthyca tymor byr yr Awdurdod wedi parhau i gynyddu gyda'r cynnydd yn y Gyfradd Banc a chyfraddau marchnad cyfnod byr. Y gyfradd gyfartalog ar fenthyciadau tymor byr yr Awdurdod ar 30 Mehefin 2023 ar £6.00 miliwn oedd 4.35%, o gymharu ag 1.3% ar fenthyciadau o £6.00 miliwn 12 mis yn ôl.

**Tabl 3B: Benthyciadau cyfnod hir**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.60 | 4.80 | 29.00 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.70 | 3.91 | 18.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **7.30** | **4.23** | |

18 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn seiliedig ar unrhyw un canlyniad ar gyfer cyfraddau llog a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyciadau tymor byr a thymor hir.

19 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Mehefin 2023, ad-dalwyd benthyciad marchnad tymor byr o £3 miliwn. Disodlwyd hwn gan fenthyciad PWLB tymor hir, a gymerwyd yn 2022/23. Ymgymerwyd â hyn yn dilyn cyngor gan ein hymgynghorwyr rheolaeth trysorlys a phan oedd cyfraddau llog yn ffafriol.

**GWEITHGARWCH BUDDSODDI'R TRYSORLYS**

20 Cyhoeddodd CIPFA God Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd ar Reolaeth Trysorlys diwygiedig ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd yn y pen draw yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bod angen yr arian ar gyfer ei ddefnyddio yn ystod y gwaith.

21 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £4.17 miliwn a £10.18 miliwn oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r balans yn gysylltiedig â'r incwm a dderbyniwyd mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, a fydd yn cael ei wario drwy gydol y flwyddyn. Dangosir y sefyllfa fuddsoddi yn nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi'r Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Ch.1 Symudiad Net £m | 31.6.23 Balans £m | 30.6.23 Enillion Incwm % | 30.6.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysoledig dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Banciau a chymdeithasau adeiladu | 4.17 | 6.01 | 10.18 | 4.16-4.90 | ar alwad |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **4.17** | **6.01** | **10.18** | | |

22 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion orau bosibl, neu incwm. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffyg talu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

23 Fel y dangosir gan feincnod rhwymedigaeth yr adroddiad hwn, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

24 Cynyddodd cyfraddau banc 0.75%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5% erbyn diwedd mis Mehefin, gyda rhagolygon o gynnydd pellach i ddod. Cododd cyfraddau arian parod cyfnod byr mewn modd cymesur, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis i bron i 6%.

**CYDYMFFURFIAETH**

25 Mae'r Trysorydd yn adrodd bod yr holl weithgareddau rheoli trysorlys a gyflawnwyd yn ystod y chwarter yn cydymffurfio â'r egwyddorion yn y Cod Rheoli Trysorlys a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod, ar wahân i'r terfyn ar gyfer buddsoddiadau a ddelir gan un banc. Mae gan y Gwasanaeth ddau gyfrif galwad a ddefnyddir i osod adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Roedd y cyfraddau llog oedd yn cael eu cynnig ar adneuon trysorlys yn sylweddol uwch gyda Banc Lloyds ac felly er mwyn cael yr adenillion gorau mae'r holl adneuon wedi eu gosod gyda nhw.

26 Er mwyn helpu i liniaru hyn yn y dyfodol, mae'r Gwasanaeth wedi gwneud cais am Gyfrif Swyddfa Rheoli Dyledion, gan fod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn caniatáu ar gyfer gosod arian diderfyn gyda'r DMO.

27 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.06.23 Gwirioneddol | Cydymffurfiwyd? Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel tymor hir (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | £10.18m | naddo |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion | Diderfyn | **0** | do |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond yn unol â chyngor gan Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | do |
| Awdurdodau Lleol | Pawb ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a chanfodiadau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1 biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | do |

28 Dangosir cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyledion a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 30.6.23 Gwirioneddol £m | Ffin Weithredol 2023/24 £m | Terfyn Awdurdodedig 2023/24 £m | Cydymffurfiwyd? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 23.23 | 28.99 | 30.99 | Do |
| **Cyfanswm dyled** | **23.23** | **28.99** | **30.99** | |

29 Gan fod y ffin weithredol yn arf rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd adegau pan fydd y benthyca gwirioneddol yn uwch na'r targed hwn. Gall hyn fod oherwydd amrywiadau mewn llif arian ac ni fyddai toriadau tymor byr yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

30 Fel sy’n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae’r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol ar gyfer rheoli trysorlys.

**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca**

31 Mae'r dangosydd hwn wedi'i osod i reoli pa mor agored yw'r Awdurdod i risg ail-ariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd yr holl fenthyca oedd:

| | **30.6.23 Gwirioneddol** | **Terfyn Gwirioneddol** | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** | **Cydymffurfiwyd D/N** |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 2.44 | 10.50% | 60.00% | 0.00% | D |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 6.71 | 28.89% | 45.00% | 0.00% | D |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 5.62 | 24.19% | 45.00% | 0.00% | D |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 1.32 | 5.68% | 75.00% | 0.00% | D |
| 10 mlynedd ac uwch | 7.14 | 30.74% | 100.00% | 0.00% | D |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Tymor Hir**

32 Nid yw'r Awdurdod yn dal unrhyw fuddsoddiadau trysorlys tymor hir.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir GTAGC. Mae'n sicrhau bod prynu asedau i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheng flaen yn cael ei wneud yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae perygl y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golled o ran o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Jack Millward – Rheolwr Caffael a Chontractau** |
| Pwnc | **Diweddariad Caffael** |

**PWRPAS**

1 Rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y trefniadau caffael a'r gweithgareddau o fewn Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Penodwyd y Rheolwr Caffael a Chontractau ym mis Chwefror 2023, i ddarparu cymorth ac arweiniad proffesiynol ym maes caffael a rheoli contractau.

3 Mae caffael yn y sector cyhoeddus yn amodol ar ystod o rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol ac er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r maes cymhleth hwn, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rheolau gweithdrefnau contractau sy'n darparu fframwaith o brosesau y mae'n rhaid eu dilyn.

4 Bydd diwygiadau caffael y sector cyhoeddus yn gosod rhwymedigaethau pellach ar yr Awdurdod i ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys gwerth cymdeithasol, materion amgylcheddol a chynaliadwyedd.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n nodi'r:

i) trefniadau presennol ar gyfer cydymffurfio â gofynion caffael y sector cyhoeddus;
ii) diwygiadau caffael y sector cyhoeddus yn y dyfodol; a'r
iii) gweithgareddau caffael ar gyfer y cyfnod Ebrill 2023 – Awst 2023.

**CEFNDIR**

6 Caffael yw'r broses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran creu buddion nid yn unig i'r sefydliad ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi wrth leihau niwed i'r amgylchedd.

7 Mae’r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £7 biliwn bob blwyddyn ar gaffael. Yng Nghymru, nodwyd caffael fel un o'r meysydd corfforaethol allweddol ar gyfer newid a amlinellir yn y canllawiau craidd ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

8 Mae’r gwaith o reoli a llywodraethu gweithgarwch caffael a chomisiynu yn amodol ar nifer o rwymedigaethau sy'n deillio o ganllawiau, offerynnau statudol a rheoliadau Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn 2016, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Diwygio ac ati) (Ymadael â'r UE) 2020, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus (Diwygio) 2022 a Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016.

9 Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r maes cymhleth hwn, mae'r Awdurdod wedi cymeradwyo rheolau gweithdrefnau contractau sy'n darparu'r fframwaith o brosesau y mae'n rhaid eu dilyn. Gellir cyrchu'r rhain trwy'r ddolen ganlynol a chadarnhau'r rheolaethau allweddol. [Rheolau Gweithdrefnau Contractau]

| **Gwerth y contract** | **Llwybr caffael** |
|---|---|
| O dan £10,000 | Gofyniad i ddangos gwerth am arian er y caniateir cael un cyflenwr |
| £10,000–£40,000 | 3 dyfyniad |
| £40,000 | Caffael ffurfiol |

10 Mae Rheolau'r Gweithdrefnau Contractau hefyd yn cydnabod yr achlysuron pan fo'n briodol defnyddio eithriad o'r rheolau caffael drwy ddefnyddio hepgoriadau tendr sengl.

11 Ar hyn o bryd mae caffael sector cyhoeddus yn destun diwygio pellach ar draws y DU. Mae Bil Caffael Cyhoeddus yr holl DU yn mynd drwy'r broses ddeddfwriaethol ar hyn o bryd a bydd yn disodli nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth bresennol. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio ar ddeddfwriaeth sy'n benodol i'r sector cyhoeddus yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar bartneriaeth gymdeithasol a phroses gaffael sy'n gymdeithasol gyfrifol.

12 Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i sicrhau bod y broses gaffael yn gymdeithasol gyfrifol lle mae'n cynnwys contractau adeiladu dros £2 filiwn neu wasanaethau allanol.

13 Yn seiliedig ar y fersiwn ddiweddaraf o'r Bil a'r cynigion a nodwyd mewn dogfennau ymgynghori a gyhoeddwyd yn ddiweddar, y newidiadau mwyaf effeithiol i'r rhan fwyaf o awdurdodau contractio fydd:

- Mwy o hyblygrwydd mewn gweithdrefnau caffael, rheolau fframwaith a marchnadoedd deinamig newydd
- Mwy o ofynion tryloywder
- Rhwymedigaethau rheoli contract gofynnol sy'n cael eu gyrru gan ofynion monitro dangosyddion perfformiad allweddol (KPI)
- Gwell trefn o ran gwaharddiadau

Mae crynodeb o'r diwygiadau caffael yng Nghymru a'r ddyletswydd caffael cymdeithasol gyfrifol gysylltiedig wedi'i baratoi gan Lywodraeth Cymru ac mae i'w gael yn Atodiad 1.

14 Wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau mae'n rhaid i'r Awdurdod, felly, ystyried ystod o fesurau gan gynnwys:

- Ansawdd
- Cost
- Gwaith teg
- Y gwerth cymdeithasol sy'n rhan annatod o'r contract
- Cynaliadwyedd
- Effeithiau amgylcheddol
- Goblygiadau cydraddoldeb gan gynnwys y Gymraeg

15 Gan weithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus eraill, mae gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r prosesau a'r canllawiau caffael ymhellach i sicrhau cydymffurfiaeth yn y maes cymhleth hwn. Mae grŵp Caffael Cymru gyfan yn cydweithio ar nifer o feysydd allweddol.

**CYD-DESTUN LLEOL**

16 Mae'r gyllideb nad yw'n seiliedig ar gyflog ar gyfer 2023/24 oddeutu £11m ac mae'n ymwneud ag ystod eang o gostau gan gynnwys safleoedd, fflyd, technoleg gwybodaeth a hyfforddiant arbenigol.

17 Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau cydymffurfiaeth â rheolau presennol gweithdrefnau contractau, gan gynnwys datblygu'r system ariannol, ar gyfer gweithgareddau caffael, gan gynnwys rheoli contractau.

18 Lle bo'n briodol, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn cydweithio ag awdurdodau Tân ac Achub Cymru, ar gyfer meysydd gwariant cyffredin – er enghraifft y pecyn tân, i sicrhau arbedion maint. Mae'r Awdurdod hefyd yn cydweithio â Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas â gwariant ar safleoedd.

19 Gwneir defnydd hefyd o fframweithiau caffael y sector cyhoeddus sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth gaffael, yn sicrhau bod camau diwydrwydd dyladwy priodol wedi'u cymryd mewn perthynas â chyflenwyr a hefyd yn lleihau'r baich gweinyddol. Lle nad yw hyn yn bosibl, mae'r Awdurdod hefyd yn cynnal ymarferion tendro ar ei ran ei hun.

20 Lle nad oes ond un cyflenwr, neu os yw'r caffael wedi'i gyfyngu oherwydd anghenion y gwasanaeth, mae proses hepgor ar waith, sy'n sicrhau bod gwiriadau diwydrwydd dyladwy yn cael eu cwblhau.

**GWEITHGAREDDAU**

21 Mae'r tabl isod yn cadarnhau’r gweithgarau rhwng Ebrill 2023 ac Awst 2023

| | | |
|---|---|---|
| **Llai na £40,000** | | |
| **Adran** | **Natur y contract** | **Llwybr caffael** |
| Adnoddau dynol | Llinell adrodd gyfrinachol | Cystadleuaeth fach |
| Fflyd | Cynnal a chadw offer gweithdy | Tendr |
| Adnoddau dynol | Rhaglen cymorth i weithwyr | Fframwaith |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cefnogaeth broffesiynol ar gyfer dadansoddi’r ymgynghoriad | Fframwaith |
| **£40,000 - £100,000** | | |
| **Adran** | **Natur y contract** | **Llwybr caffael** |
| TGCh | VM Ware | Fframwaith |
| Cyllid | Darparu gwasanaethau archwiliomewnol | Fframwaith |
| Hyfforddiant | Gwasanaethau proffesiynol sy'n gysylltiedig â phrynu tir | Fframwaith |
| | | |
| **Hepgoriadau tendr sengl** | **Natur y contract** | **Rheswm dros newid** |
| Gweithrediadau | Meddalwedd diogelwch cartref | Ymestyn y contract presennol |
| Cyfathrebu Corfforaethol | Cefnogaeth broffesiynol ar gyfer ymgynghori | Cyflenwr sengl |
| TGCh | Rhybuddion Swissphone | Cyflenwr sengl |
| Adnoddau dynol | Meddalwedd gweithlu a chyflogres | Ymestyn y contract presennol |

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Sicrhau bod prynu asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer gwariant. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi trwy ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r DU, yn ogystal â rheolau mewnol gweithdrefnau contractau. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Mae gofynion caffael yn sicrhau bod y safonau perthnasol fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth yn cael eu bodloni |
| **Risgiau** | Gallai methu â chadw at reoliadau caffael arwain at herio cyfreithiol. |

Cryfhau partneriaeth gymdeithasol

Strengthening social partnership

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Sut mae'r Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol yn cysylltu â'r diwygiadau caffael ehangach yng Nghymru

## Polisi/ Deddfwriaeth Arall

Rhai o ddeddfau a pholisïau ehangach Cymru sydd â chysylltiad agos â'r Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cenhadaeth Economaidd
- Datgarboneiddio/ Sero Net
- Yr Economi Gylchol
- Gwaith Teg
- Cydraddoldeb
- Diwylliant a'r Gymraeg

## Polisi Caffael

Datblygiadau polisi caffael Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

- Datganiad Polisi Caffael Cymru
- Prosiect Gwerth Cymdeithasol:
  - Terminoleg
  - Blaenoriaethu polisiau
  - Data ac adrodd

## Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

**Dyletswyddau cyffredinol:**

- Gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy gynnal caffael cyhoeddus mewn ffordd sy'n gymdeithasol gyfrifol, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy
- Paratoi strategaeth, a phennu a chyhoeddi amcanion
- Rhaid i ddarpariaethau fod yn gymesur
- Gofynion ar "gontractau rhagnodedig" (contractau adeiladu mawr a chontractau allanoli gwasanaethau)

**Contractau adeiladu mawr:**

- Cymalau Gweithiau Cyhoeddus Cymdeithasol
- Rheoli contractau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu
- Adrodd am eithriadau os na ddefnyddir cymalau
- Sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu drwy'r holl gadwyni cyflenwi

**Contractau allanoli gwasanaethau:**

- Cod Diwygiedig ar Faterion y Gweithlu
- Cymalau Gweithlu Cyhoeddus Cymdeithasol
- Rheoli contractau i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu
- Adrodd am eithriadau os na ddefnyddir cymalau
- Sicrhau bod rhwymedigaethau'n cael eu gweithredu drwy'r holl gadwyni cyflenwi

**Adrodd ac atebolrwydd:**

- Paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol, gan gynnwys adolygiad
- Crynodeb o'r ymarferion caffael a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'r rhai y disgwylir eu cynnal dros y ddwy flynedd nesaf
- Cofrestr gontractau
- Gall ymchwiliadau gael eu cynnal gan Weinidogion Cymru
- Is-grŵp caffael i adolygu'r adroddiadau blynyddol a'r hysbysiadau am eithriadau

## Diwygio Proses Gaffael y DU

Rhannau o ddeddfwriaeth gaffael y DU, a fydd yn gosod y rheolau ar brosesau caffael, sy'n gysylltiedig â'r Dyletswyddau Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

- Datganiad Polisi Caffael Cymru
- Canllawiau Statudol
- Trefniadau goruchwylio

## Adnoddau Caffael

Adnoddau ac offer i helpu cyrff cyhoeddus i lywio a gweithredu'r holl ddeddfwriaeth newydd

- Canllaw Cynllunio Caffael
- Adnodd blaenoriaethu polisiau
- Adnoddau data:
  - Dadansoddi gwariant
  - Offeryn tryloywder
  - Adnodd adrodd

Mawrth 2023

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47033
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

*Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*

**Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Medi 2023** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau)** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Gweithgor Craffu ar y Gyllideb** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu'r cynigion i'r Aelodau ar gyfer ffurfio gweithgor Aelodau er mwyn darparu gwaith craffu ar gyllideb a sicrwydd. Bydd y grŵp yn deillio o aelodau'r Pwyllgor Archwilio (y Pwyllgor) ac yn cael ei gadeirio gan y Cyng. Nigel Smith.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) osod cyllideb ariannol gytbwys y mae'n rhaid iddi gael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "cytbwys" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

3 Cynigir bod datblygu cyllideb refeniw 2024/25 a'r cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei gefnogi drwy greu Gweithgor Craffu ar Gyllideb er mwyn darparu gwaith craffu ar gyllideb a sicrwydd i'r Awdurdod.

4 Cynigir y bydd y grŵp yn cyfarfod ar bedwar achlysur ac yn cynnwys cynrychiolaeth o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i. Cymeradwyo creu Gweithgor Craffu ar Gyllideb i'r Aelodau gyda'r nod o ddarparu gwaith craffu ar y gyllideb a sicrwydd;

ii. Cymeradwyo penodi un Aelod unigol penodol sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol cyfansoddol, ac un Aelod wrth gefn o bob awdurdod lleol cyfansoddol.

**CEFNDIR**

6 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys y mae'n rhaid i'r Awdurdod llawn ei chymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er nad yw'r term "cytbwys" wedi'i ddiffinio'n ffurfiol yn y ddeddfwriaeth, mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn cydnabod y dylai fod gan sefydliadau gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig.

7 Mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn y tymor byr, canolig a thymor hirach yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth am y gyrwyr cost allweddol, gan gynnwys gwerthuso risgiau ac ansicrwydd. Yn ganolog i hyn mae dealltwriaeth am ofynion y gwasanaethau, yr adnoddau sydd ar gael a'r weledigaeth strategol ar gyfer y dyfodol.

8 Gosodwyd cyllideb refeniw'r Awdurdod ar gyfer 2023/24 ym mis Ionawr 2023 cyn i ddyfarniadau cyflog 2022/23 a 2023/24 ar gyfer staff sydd ar delerau ac amodau'r llyfr llwyd gael eu cytuno'n genedlaethol ym mis Chwefror 2023.

9 Roedd y dyfarniadau cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol yn sylweddol uwch na'r ddarpariaeth amcangyfrifedig o fewn y gyllideb ar gyfer 2023/24 a chawsant eu cydbwyso trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn ar sail taliad untro. Ynghyd â chostau eraill oedd heb eu hariannu, amcangyfrifir bod y diffyg gwaelodol a gariwyd o 2023/24 yn £2.4m ac mae trefniadau cynaliadwy yn ofynnol o 2024/25 ymlaen.

**GWYBODAETH**

10 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol ar gyfer 2024/25 yn dangos cynnydd blwyddyn i flwyddyn o £6 miliwn os oedd y model darparu gwasanaethau presennol yn cael ei gadw. Er bod y model gweithredu yn y dyfodol yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd drwy'r Adolygiad Darpariaeth Frys, mae'n amlwg bod pwysau o ran costau'n dal i fod.

11 Mae'r pwysau presennol o ran costau'n cynnwys dyfarniadau cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol ar gyfer staff, chwyddiant o ran y gadwyn gyflenwi, pwysau ar y gadwyn gyflenwi a chyfraddau llog. Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn wynebu nifer o ffactorau gwasgu o ran twf sy'n deillio o faterion iechyd a diogelwch fel risgiau halogi sy'n gysylltiedig ag ymladd tân.

12 Mae'r pwysau o ran costau a'r heriau ariannol yn golygu bod angen sicrwydd ar Aelodau'r Awdurdod bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddeall beth sy'n achosi'r costau a bod y cynigion ar gyfer cyllideb y dyfodol yn cael eu hystyried yn rhai rhesymol.

13 Cynigir sefydlu gweithgor Aelodau i ddarparu gwaith craffu ar y gyllideb a sicrwydd i'r Pwyllgor ar ran yr Awdurdod.

14 Byddai'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolydd Aelodau o bob awdurdod lleol cyfansoddol ac yn derbyn cefnogaeth broffesiynol gan Drysorydd yr Awdurdod.

15 Os cytunir ar hyn, cynigir y byddai pedwar cyfarfod yn cael eu cynnal yn ystod Hydref a Thachwedd 2023 i gynnwys y canlynol:

I. Trosolwg o'r Gyllideb – galluogi Aelodau i gael mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth am elfennau cyfansoddol y gyllideb ac i nodi meysydd i ganolbwyntio ymhellach arnynt;
II. Gwariant sy'n gysylltiedig â chyflogau – adolygiad manwl o elfennau cyflogres y gwariant gan gynnwys y rhai a nodwyd gan Aelodau yn ystod y cyfarfod cyntaf;
III. Gwariant nad ydyw ar gyflogau a chost cyfalaf – adolygiad o'r elfennau o wariant nad ydynt ar gyflogau gan gynnwys cadarnhad o gytundebau sylweddol ac anawsterau yn y gadwyn gyflenwi. Bydd trosolwg o'r costau cyllido cyfalaf hefyd yn cael ei wneud gan gynnwys ystyried newidiadau i gyfraddau llog; a
IV. Sesiwn olaf i alluogi'r Aelodau i gwblhau'r gwaith ac ystyried yr adroddiad i'r Awdurdod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcan llesiant hirdymor yr Awdurdod sef "hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig o ansawdd uchel, ymatebol a gwell fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg." |
| Cyllideb | Bydd y gweithgor yn cefnogi datblygu'r gyllideb ac yn rhoi sicrwydd bod craffu wedi digwydd. |
| Cyfreithiol | Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Awdurdod bennu cyllideb cydbwyso sy'n golygu bod amcanion sefydliadol yn gallu cael eu cyflawni. |
| Staffio | Mae pennu cyllideb gadarn yn sicrhau bod costau staff yn cael eu hystyried yn llawn gan alluogi cynlluniau gweithlu i gael eu datblygu. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ y Gymraeg | Mae datblygu'r gyllideb yn seiliedig ar gynlluniau gwasanaeth sy'n ystyried rhwymedigaethau cyfreithiol. |
| Risgiau | Mae nifer o risgiau a chryn ansicrwydd yn bodoli mewn perthynas â chyllidebau'r dyfodol sy'n cynnwys dyfarniadau cyflog, cynnydd chwyddiant mewn gwariant nad ydyw ar gyflogau a risgiau cyfraddau llog. Mae'r broses o osod cyllideb yn cefnogi'r cynllunio tymor byr, canolig a thymor hirach ac yn cefnogi'r broses o gyflawni'r amcanion sefydliadol. |